PET(4) SAR 26
Y Pwyllgor Deisebau
Ymgynghoriad ar ddeiseb P-04-432 Atal Recriwtio i'r Fyddin mewn Ysgolion
Ymateb gan S.W. Edwards

[redacted]

13/4/2013

Annwyl Syr,

Rwy'n anfon gair atoch i fynegi fy ngwrthwynebiad i'r lluoedd arfog recriwtio plant i'r fyddin mewn ysgolion.

Gobeithio eich bod yn gwybod mai Prydain yw'r unig wladwriaeth yn yr Undeb Ewropeaidd sy'n caniatau presenoldeb milwrol yn ei hysgolion. O'r 27 gwladwriaeth sydd yn yr Undeb Ewropeaidd, Prydain yw'r unig un sy'n recriwtio plant 16 oed i'r lluoedd arfog. Hefyd Prydain yw'r unig un o wladwriaethau NATO i recriwtio plant i'r lluoedd arfog.

Mae Pwyllgor Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd wedi annog Llywodraeth Prydain yn y flwyddyn 2008 i "ail ystyried ei pholisi o recriwtio plant i'w lluoedd arfog."

Gobeithiaf yn fawr y bydd ein Cynulliad Cenedlaethol yn ymateb yn gadarnhaol i'r alwad hon yn ein deiseb i ysgolion yng Nghymru atal y lluoedd arfog rhag recriwtio plant Cymru o'u mewn.

Yr eiddoch yn gywir.
G. W. Edwards. (Mrs)